Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 11 Medi 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | A J Jeffery | H Lawson |
| J E Pritchard | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lee Cambule | Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**
Julia Manser - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A J O'Connor

---

## 15 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd H Lawson gysylltiad personol â Chofnod 17 "Datblygu Polisi Gwirfoddoli Cyngor Abertawe".

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**17 Datblygu Polisi Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.**

Cyflwynodd Anthony Richards adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn nodi'r cefndir i ddatblygiad Polisi Gwirfoddoli Cyngor Abertawe a fydd yn nodi egwyddorion ac arfer cyson ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan ar draws y sefydliad.

Mae'r polisi'n ceisio creu dealltwriaeth gyffredin a diffiniad o wirfoddoli a chadarnhau rolau a chyfrifoldebau i sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â rheoli gwirfoddolwyr o fewn Cyngor Abertawe wrth hefyd gydnabod pwysigrwydd gwirfoddolwyr i Gyngor Abertawe.

Croesawodd Julia Manser (CGGA) y polisi drafft ac amlinellodd a nododd ei chyfraniad a'i mewnbwn gyda datblygiad parhaus y polisi a nododd y byddai'r polisi'n fwy addas ar gyfer rolau gwirfoddoli ffurfiol o fewn y cyngor megis y rheini mewn cartrefi gofal, ac yn llai addas ar gyfer gweithgareddau anffurfiol megis casglu sbwriel yn y gymuned etc.

Cynigwyd byddai Polisi Gwirfoddoli Cyngor Abertawe yn cynnwys egwyddorion gwirfoddoli fel a ddiffinnir gan CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru):
- Mae gwirfoddoli'n cael ei wneud drwy ddewis. Mae gan unigolion yr hawl i wirfoddoli neu beidio.
- Er na ddylai gwirfoddolwyr fel arfer dderbyn na disgwyl gwobrau neu gymhellion ariannol, dylid eu had-dalu am dreuliau rhesymol.
- Dylai cyfraniad gwirfoddolwyr a staff cyflogedig gyd-fynd â'i gilydd Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i gymryd lle staff cyflogedig nac i danbrisio eu cyflog a'u hamodau gwasanaeth. Dylai gwirfoddolwyr wella ansawdd gweithgareddau'r cyngor.
- Dylai mecanweithiau effeithiol fod ar waith i gefnogi a datblygu gwirfoddolwyr.
- Dylai gwirfoddolwyr a staff cyflogedig allu cyflawni eu dyletswyddau mewn amgylcheddau diogel ac iach sy'n rhydd o aflonyddwch, bygwth, bwlio, trais a gwahaniaethu. Dylid trin pawb yn sensitif o ran yr iaith o'u dewis.
- Dylai gwirfoddolwyr gael mynediad at gyfleoedd priodol ar gyfer dysgu a datblygu.
- Dylid cael proses gydnabyddedig ar gyfer datrys problemau, ar gyfer staff a gwirfoddolwyr.
- Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i gwblhau gwaith staff cyflogedig yn achos anghydfodau diwydiannol.
- Dylai gwirfoddoli fod yn agored ac yn hygyrch i bawb
- Lles Cyffredinol - dylai'r gwirfoddolwr a'r cyngor elwa o'r berthynas
- Dylid cydnabod cyfraniad y gwirfoddolwr

Atodwyd Polisi Gwirfoddoli drafft presennol Cyngor Abertawe yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae'r polisi drafft hwn yn ystyried arfer gorau fel y nodwyd gan Gefnogaeth Trydydd Sector Cymru ac felly'n diffinio gwirfoddoli, nodi safonau ac ymrwymiadau i rolau a chyfrifoldebau, recriwtio a dethol, sefydlu a hyfforddi a chefnogi a goruchwylio.

Yn dilyn cyfarfod y gweithgor datblygu gwirfoddoli yn ystod mis Mai, cyflwynwyd Polisi Gwirfoddoli drafft Cyngor Abertawe i'r grŵp gweithredol diogelu corfforaethol yn ystod mis Gorffennaf ar gyfer adolygiad a sylwadau cychwynnol.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd ag adnoddau dynol a datblygu sefydliadol a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Cyngor Abertawe i ailddiffinio'r polisi drafft a llywio datblygu Pecyn Cymorth ar gyfer Rheoli Gwirfoddolwyr a Llawlyfr i Wirfoddolwyr, gan gynnwys adborth gan y grŵp gweithredol diogelu corfforaethol.

Sefydlwyd Grŵp Llywio polisi gwirfoddoli hefyd sy'n cynnwys swyddogion o'r gwasanaeth trechu tlodi, adnoddau dynol, a datblygu sefydliadol a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe. Bydd y Grŵp Llywio'n cwrdd yn ystod mis Medi er mwyn penderfynu ar y polisi drafft terfynol.

Sicrhawyd cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu'r adnoddau gofynnol er mwyn cefnogi cwblhau'r gwaith hwn a'i roi ar waith yn ystod 2023/24. Rhagwelwyd y byddai swydd swyddog datblygu gwirfoddoli'n cael ei sefydlu ar ddechrau 2024.

Byddai'r apwyntiad yn helpu gyda'r amserlenni tebygol ar gyfer rhoi'r polisi ar waith yn 2024 oherwydd y swm mawr o waith y mae angen ei wneud o ran datblygu'r Pecyn Cymorth i Reolwyr a'r Llawlyfr i Wirfoddolwyr Unwaith bydd y polisi'n cael ei benderfynu'n derfynol, caiff ei ailgyflwyno i'r pwyllgor i'w gymeradwyo.

Byddai Grŵp Llywio'r polisi gwirfoddoli'n parhau i weithio i gwblhau Polisi Gwirfoddoli drafft Cyngor Abertawe a datblygu Llawlyfr i Wirfoddolwyr corfforaethol a phecyn cymorth ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr fel yr amlinellir yn y polisi drafft.

Bydd data gwaelodlin cyson ar gyfer yr holl wirfoddolwyr sy'n cael eu defnyddio ar draws wasanaethau o fewn Cyngor Abertawe yn cael ei sefydlu yn ogystal ag ymgysylltu â gwirfoddolwyr presennol i gwblhau mapio profiadau ac ymgysylltu a chydgynhyrchu parhaus.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau amrywiol a gwnaed sylwadau am y cynigion ac ymatebodd y swyddogion yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad a'r diweddaraf.

**18 Cynllun Gwaith 2023-2024.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Gwaith a ddosbarthwyd ar gyfer 2023-2024 a nododd, yn dilyn y gweithdy a fydd yn cael ei drefnu'n fuan ar Broses Grant Codi'r Gwastad, bydd yr eitem yn cael ei hychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith diwygiedig fel yr amlinellwyd uchod,

Daeth y cyfarfod I ben am 4.37 pm

**Cadeirydd**